**Elin Jones AS, Llywydd**
Senedd Cymru
**Elin Jones MS, Presiding Officer**
Welsh Parliament

At: Pob Aelod o'r Senedd
Dros ebost

17 Mawrth 2021

Annwyl Aelodau,

**Effaith Deddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021**

Rwy'n ysgrifennu atoch i dynnu eich sylw at effaith Deddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021 ("y Ddeddf") ar fusnes y Senedd.

Mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno, cyn belled ag y bo modd, y dylai fod yna sefyllfa gyfartal ar gyfer pob ymgeisydd yn ystod cyfnod yr etholiad, i wneud yn siŵr fod yr etholiad yn un teg a bod pawb yn cael cyfle cyfartal. Mae'r egwyddor hon wedi'i hadlewyrchu mewn penderfyniadau a gymerwyd gan Gomisiwn y Senedd wrth ystyried argaeledd adnoddau'r Senedd i Aelodau a phwyllgorau'r Senedd yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r penderfyniadau hyn – lle bo hynny'n berthnasol – wedi'u hadlewyrchu yng Nghanllawiau Cyfnod yr Etholiad ar gyfer yr Aelodau a staff cymorth. Bydd fersiwn wedi'i ddiweddaru o'r canllawiau yn cael ei ailgyhoeddi yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar 15 Mawrth.

**<u>Penderfyniadau sy'n ymwneud â Busnes y Senedd yn y cyfnod cyn Etholiad y Senedd 2021</u>**

<u>Toriad y Pasg (29 Mawrth – 6 Ebrill)</u>

Mae Toriad y Pasg wedi'i drefnu yn union cyn y toriad cyn y diddymiad. Nid oes unrhyw fusnes wedi'i drefnu ar gyfer y Senedd yn ystod y toriad. Mae hyn yn gyson â blynyddoedd etholiad blaenorol, lle mae toriad y Pasg wedi arwain yn uniongyrchol at y diddymiad.

<u>Pennu'r cyfnod cyn diddymu (7 – 28 Ebrill)</u>

Mae'r Ddeddf yn byrhau'r cyfnod diddymu, i ddechrau wythnos cyn diwrnod yr etholiad. Mae hynny'n golygu y bydd y Diddymiad yn cychwyn ar 29 Ebrill, yn hytrach nag ar 7 Ebrill.

Un o ganlyniadau cyfnod diddymu byrrach yw y bydd Aelodau'n parhau i fod yn Aelodau o'r Senedd am 3 wythnos yn ystod cyfnod yr etholiad (h.y. rhwng 7 a 28 Ebrill).

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
llywydd@senedd.cymru
0300 200 7403

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
llywydd@senedd.wales
0300 200 7403

Diben cael Diddymiad byrrach – fel sydd wedi'i fynegi yn y Memorandwm Esboniadol i'r Ddeddf – yw:

i) Galluogi unrhyw bwerau newydd (y darperir ar eu cyfer yn y Ddeddf) i ohirio'r etholiad (na ellir eu harfer yn ystod cyfnod diddymu) i gael eu harfer hyd at wythnos cyn yr etholiad; a
ii) Darparu mecanwaith i alluogi'r Senedd gyfredol i ymateb, os bydd angen gwneud hynny, i'r materion iechyd y cyhoedd sy'n datblygu yn y cyfnod sy'n arwain at yr etholiad.

O'r herwydd, mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno i'r canlynol:

- bydd y Senedd ar doriad rhwng 7 Ebrill a 28 Ebrill, a gelwir y cyfnod hwnnw yn 'gyfnod cyn diddymu'; a
- bydd busnes y Senedd wedi'i gyfyngu i'r hyn sy'n gysylltiedig â dibenion penodol y diddymiad byrrach, fel yr amlinellir yn y Memorandwm Esboniadol i'r Ddeddf.

<u>Adalw'r Senedd yn ystod y cyfnod cyn diddymu</u>

Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y byddai'r Senedd yn cael ei hadalw am faterion nad ydynt yn gysylltiedig â'r Bil.

<u>Busnes Pwyllgorau yn ystod y cyfnod cyn diddymu</u>

Bydd holl weithgaredd Pwyllgor y Senedd yn dod i ben yn ystod y cyfnod cyn diddymu. Mae hynny'n cynnwys (ymysg pethau eraill), cyhoeddi adroddiadau, datganiadau cyhoeddus – mewn unrhyw gyfrwng, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol – neu gyfeiriad at y ffaith bod Aelod ar y Pwyllgor, mewn unrhyw fforwm cyhoeddus.

Yr unig eithriad yw y gall y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyfarfod i ystyried rheoliadau brys sy'n ymwneud â'r Coronafeirws (o'r math y byddai angen adalw'r Senedd yn eu cylch) neu reoliadau sy'n ymwneud â gohirio Etholiad y Senedd 2021. Sylwer na fyddai rheoliadau gwneud cadarnhaol sy'n ymwneud â'r Coronafeirws yn gofyn am adroddiad gan y Pwyllgor fel mater o drefn yn ystod y cyfnod hwn.

<u>Cyflwyno a gosod – terfynau amser</u>

Mae'r terfynau amser canlynol yn gymwys o ran cyflwyno a gosod:

- <u>Dogfennau a Osodwyd – 6pm (diwedd busnes) ddydd Mercher 28 Ebrill</u>
  Bydd modd gosod dogfennau (gan gynnwys unrhyw offerynnau statudol) gerbron y Senedd trwy gydol y cyfnod cyn yr etholiad, hyd at y Diddymiad ar 29 Ebrill. Yn unol â'r arfer yn y gorffennol, y dyddiad cau ar gyfer derbyn dogfennau

i'w gosod fydd diwedd y diwrnod gwaith, sef 6pm ar y diwrnod blaenorol, ddydd Mercher 28 Ebrill. Bydd unrhyw ddogfennau a ddaw i law i'w gosod ar ôl yr amser hwn yn cael eu cadw ac ystyrir eu bod wedi'u gosod, a'u cyhoeddi wedi hynny, pan fydd y Swyddfa Gyflwyno yn ailagor yn ffurfiol ar gyfer busnes ar ôl yr etholiad.

- Cwestiynau Ysgrifenedig – 4pm (diwedd busnes) ddydd Gwener 19 Mawrth
  Er bod cyfnod diddymu byrrach yn gymwys eleni, mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno ar ddyddiad cau tebyg i'r hyn a oedd yn gymwys yn 2016. Mae'r dyddiad cau'n caniatáu 10 diwrnod gwaith (gan ystyried gwyliau banc y Pasg) i Weinidogion Cymru (neu Gomisiynwyr y Senedd) ddarparu atebion yn uniongyrchol i'r Aelodau, ac iddynt gael eu cyhoeddi ar wefan y Senedd cyn i'r cyfnod cyn diddymu ddechrau ddydd Mercher 7 Ebrill.

- Busnes arall a gyflwynir – 4pm (diwedd busnes) ddydd Gwener 26 Mawrth
  Gellir cyflwyno Cwestiynau Brys ac Amserol (hyd at y Cyfarfod Llawn olaf, sydd wedi'i drefnu ar 24 Mawrth), Datganiadau Barn, a Chynigion Heb Ddyddiad Trafod tan ddiwedd ffurfiol tymor y gwanwyn, yn yr un modd â 2016. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd unrhyw Gynigion Heb Ddyddiad Trafod yn cael eu cyflwyno ar ôl 22 Mawrth i gynnal dadl arnynt.

Cofrestr buddiannau'r Aelodau

Bydd y gofyniad i'r Aelodau gofrestru a chofnodi buddiannau, yn unol â Rheolau Sefydlog 2, 3, 4 a 5, yn parhau trwy gydol y cyfnod cyn diddymu (h.y. tan 28 Ebrill). Dylai aelodau barhau i gofrestru eu buddiannau tan 6pm ddydd Mercher 28 Ebrill yn y ffordd arferol. Bydd Clercod y Swyddfa Gyflwyno ar gael i roi cyngor cyfrinachol ac i brosesu a chyhoeddi unrhyw gyflwyniadau a ddaw i law.

Bydd yr Aelodau'n peidio â dal eu swydd pan fydd y Diddymiad yn dechrau am 00:01 ddydd Iau 29 Ebrill, ac ni fydd y Swyddfa Gyflwyno, o ganlyniad, yn prosesu unrhyw newidiadau i'r gofrestr buddiannau a dderbynnir ar ôl 18:00 ddydd Mercher 28 Ebrill.

Deisebau

Bydd system ddeisebau'r Senedd ar gau yn ystod y cyfnod cyn diddymu (yn ogystal ag yn ystod y Diddymiad). Bydd casglu llofnodion ar ddeisebau presennol yn cael ei ohirio ac, er y bydd cyngor cyffredinol yn parhau i gael ei roi i'r cyhoedd, ni fydd unrhyw benderfyniadau o ran derbyniadwyedd yn cael eu gwneud, na deisebau'n cael eu cyhoeddi yn ystod y cyfnod hwn.

Mae hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa yn ystod cyfnodau diddymu blaenorol, a chytunwyd arno mewn egwyddor gan y Pwyllgor Deisebau yn ei gyfarfod ar 26 Ionawr.

Grwpiau Trawsbleidiol

Cyfyngir ar weithgareddau Grwpiau Trawsbleidiol yn ystod y cyfnod cyn diddymu (hy ar ôl 7 Ebrill). Gall Cadeiryddion ac Ysgrifenyddiaeth y grwpiau barhau i gyflwyno'r ddogfennaeth ofynnol sy'n ymwneud â gweithgareddau Grwpiau Trawsbleidiol tan 6pm ddydd Mercher 28 Ebrill.

Bydd pob Grŵp Trawsbleidiol yn peidio â bodoli a byddant yn cael eu dadgofrestru'n awtomatig gyda'r Diddymiad (hanner nos ar 29 Ebrill) a bydd angen eu cofrestru o'r newydd ar ôl yr etholiad os yw'r Aelodau'n dymuno iddynt barhau. Mae cyngor a chymorth pellach ar gael oddi wrth y Swyddfa Gyflwyno.

**Proses i ystyried unrhyw gynnig i ohirio Etholiad y Senedd 2021**

Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer gohirio Etholiad y Senedd 2021, lle bo hynny'n angenrheidiol neu'n briodol am reswm sy'n ymwneud â' Coronafeirws. Mae'r broses ar gyfer gohirio'r etholiad wedi'i hatodi, yn seiliedig ar y dyletswyddau statudol a sefydlwyd gan adran 6 o'r Ddeddf – y cytunwyd arni gyda'r Prif Weinidog – ac yn amodol ar ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol.

**Gwneud penderfyniadau mewn perthynas â Busnes y Senedd pe bai'r etholiad yn cael ei ohirio**

Pe bai'r etholiad yn cael ei ohirio, byddaf yn galw'r Pwyllgor Busnes i ystyried amserlen fusnes y Senedd, gan gynnwys pennu amserlenni ar gyfer busnes Cyfarfodydd Llawn a phwyllgorau.

Yn gywir,

Elin Jones

**Elin Jones AS**
Y Llywydd

## Atodiad – Y broses i ohirio'r etholiad o dan Adran 6 Deddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws)

*Mae'r broses ar gyfer gohirio'r etholiad wedi'i seilio ar y dyletswyddau statudol a sefydlir gan adran 6 o Ddeddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws).*

- *Mae'r Prif Weinidog, mewn llythyr ffurfiol at y Llywydd, yn cynnig bod yr etholiad yn cael ei ohirio o dan adran 6(1). Cyn gwneud cynnig, rhaid i'r Prif Weinidog ymgynghori â Phrif Swyddog Meddygol Llywodraeth Cymru yn unol ag adran 6(2).*
- *Yn y llythyr, bydd y Prif Weinidog yn:*
    - *a) cynnwys manylion am sut y penderfynodd fod y meini prawf a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 6(12) wedi eu bodloni;*
    - *b) nodi'r rheswm/rhesymau – yn ymwneud â'r Coronafeirws – pam ei fod o'r farn ei bod yn angenrheidiol neu'n briodol gohirio'r etholiad, gan gynnwys:*
        - *i. manylion am ei ystyriaeth o'r sefyllfa o ran iechyd y cyhoedd;*
        - *ii. yr heriau sy'n gysylltiedig â gweinyddu'r etholiad, a'r effaith ar bleidleiswyr;*
    - *c) amgáu cyngor ar wahân a gafodd gan Brif Swyddog Meddygol Llywodraeth Cymru;*
    - *d) nodi'r cyfnod a ffefrir ganddo ar gyfer cynnal y pôl a ohiriwyd.*
- *Bydd y Prif Weinidog yn gosod datganiad ysgrifenedig ar yr un pryd yn nodi'r un wybodaeth.*
- *Os bydd y Llywydd yn gofyn i'r Comisiwn Etholiadol wneud hynny o dan adran 6(6), bydd yn rhoi cyngor mewn perthynas â gohirio'r pôl cyn gynted ag y bo'n ymarferol, heb fod yn hwyrach na 24 awr ar ôl i'r cais gael ei wneud.*
- *Bydd y Llywydd yn ystyried cynnig y Prif Weinidog, gan ystyried cyngor gan y Comisiwn Etholiadol (os gofynnwyd amdano o dan adran 6(6)).*
- *Caiff y Llywydd dderbyn cynnig y Prif Weinidog neu ei wrthod.*

*<u>Os gwrthodir y cynnig i ohirio'r etholiad</u>*

- *Os bydd y Llywydd yn gwrthod cynnig y Prif Weinidog i ohirio'r etholiad, bydd yn gosod datganiad ysgrifenedig gerbron y Senedd yn esbonio pam y*

*gwrthodwyd cynnig y Prif Weinidog.*

*Os derbynnir y cynnig i ohirio'r etholiad*

- *Os bydd y Llywydd yn derbyn cynnig y Prif Weinidog i ohirio'r etholiad, bydd yn cyflwyno cynnig yn pennu dyddiad newydd ar gyfer yr etholiad i'w gymeradwyo o dan adran 6(3)(a).*
- *Ynghyd â'r cynnig, bydd y Llywydd yn gosod datganiad ysgrifenedig gerbron y Senedd sy'n nodi:*
    - I. *Dyddiad newydd arfaethedig y pôl;*
    - II. *y rheswm pam mai'r dyddiad hwn yw'r diwrnod cynharaf, ym marn y Llywydd, y gellid cynnal y pôl yn rhesymol ymarferol fel sy'n ofynnol gan adran 6(4)(a); ac*
    - III. *ar ba sail y gwnaed y penderfyniad.*
- *Pan fydd y Llywydd wedi cyflwyno'r cynnig yn pennu dyddiad newydd ar gyfer yr etholiad, os yw'r Senedd ar doriad bydd y Llywydd yn adalw'r Senedd i bleidleisio ar y cynnig cyn gynted ag y bo'n ymarferol.*
- *O dan Reol Sefydlog 12.23(iii), ni fyddai'r Llywydd yn dewis unrhyw welliannau sy'n ceisio newid y dyddiad arfaethedig, nac yn bwrw amheuaeth ar benderfyniad y Senedd i ohirio'r etholiad.*
- *Bydd y Senedd yn pleidleisio ar y cynnig sy'n ceisio pennu dyddiad newydd ar gyfer yr etholiad. Er mwyn i'r cynnig gael ei dderbyn, bydd angen i "uwchfwyafrif" o'r Aelodau bleidleisio o'i blaid, fel y darperir gan adran 6(3)(a).*

*Os derbynnir y cynnig i ohirio'r etholiad*

- *Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r dyddiad newydd ar gyfer y pôl gael ei bennu'n unol ag adran 6(3), bydd y Llywydd, yn unol ag adran 6(5), yn gosod gerbron y Senedd ddatganiad sy'n nodi:*
    - I. *y diwrnod a bennwyd ar gyfer cynnal y pôl, a'r*
    - II. *rheswm dros arfer y pŵer i bennu diwrnod.*

*Os gwrthodir y cynnig i ohirio'r etholiad*

- *Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r cynnig sy'n pennu dyddiad newydd ar gyfer y pôl gael ei wrthod, bydd y Llywydd yn gosod gerbron y Senedd ddatganiad sydd:*

I. *yn cadarnhau y gwrthodwyd y cynnig i bennu dyddiad newydd ar gyfer y pôl, ac*

II. *yn cynnwys canlyniad y bleidlais.*

- *Yna caiff y Llywydd, o dan adran 6(7), ddechrau'r broses o dan adran 6(3) eto os yw'n dymuno gwneud hynny.*